## Ymholiadau ynghylch y gwaith gosod

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon cyn y gwaith gosod yn eich cartref, mae croeso i chi gysylltu â ni. Mae'r rhif ffôn ar flaen y llythyr a ddaeth gyda'r daflen hon.

SCP6803 JAN 17

### Efallai y rhown alwad i chi i weld sut aeth pethau

Yn unol â SMICoP, efallai y byddwn ni'n rhoi galwad i chi ar ôl y gwaith gosod i weld sut aeth pethau a sut hwyl rydych chi'n ei gael gyda'r mesuryddion clyfar. Hoffem wneud yn siŵr hefyd fod gennych chi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

## Rydyn ni yma i helpu

Ar ôl cwblhau'r gwaith gosod yn eich cartref, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am fesuryddion clyfar yr hoffech eu trafod, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Ffoniwch ni am ddim ar: **0800 027 0072**
neu drwy Minicom: **0800 027 8899**
Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 10pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 8.30am a 6pm ar ddydd Sadwrn

Os ydych chi'n ffonio o'r tu allan i'r DU:
**+44 800 027 0072**
*(codir cyfraddau ffonio rhyngwladol)*

**ScottishPower, Customer Care**
Cathcart Business Park,
Spean Street, Glasgow G44 4BE

contactus@scottishpower.com
**scottishpower.co.uk**

*Cafwyd yr ystadegau mesuryddion clyfar gan Ynni Clyfar GB ym mis Chwefror 2016 – smartenergygb.org/cy

SCOTTISHPOWER

# Cwestiynau Cyffredin

**Pam mae'r Llywodraeth yn awyddus i gyflenwyr ddechrau darparu mesuryddion clyfar?**
Mae mesuryddion clyfar yn eich annog chi i fod yn fwy ynni-effeithlon, a byddant yn gwella cywirdeb eich biliau. Maen nhw'n dangos faint rydych chi'n ei wario ar ynni, felly bydd y mwyafrif o bobl yn fwy ymwybodol o ran rheoli a lleihau defnydd diangen.

**Oes rhaid i mi gael mesurydd clyfar?**
Does dim rheidrwydd cyfreithiol ar hyn o bryd, serch hynny rydyn ni'n cefnogi nod y Llywodraeth i osod mesuryddion clyfar yng nghartref pob cwsmer erbyn 2020.

**Fyddwch chi'n newid fy mesuryddion nwy a thrydan?**
Byddwn. Os ydych chi'n gwsmer tanwydd deuol gyda ni, byddwn yn newid y ddau fesurydd lle bo hynny'n bosib. Os ydych chi'n gwsmer un tanwydd, byddwn yn newid y mesurydd ar gyfer yr ynni rydyn ni'n ei ddarparu.

**Fydd raid i mi dalu am hyn?**
Na fydd – does dim cost ar gyfer y gwaith gosod. Rydyn ni'n gosod mesuryddion clyfar fel rhan o ymgyrch diweddaru mesuryddion i bob cwsmer. O dan y trefniadau cyfredol, rydych chi'n talu am fesuryddion presennol drwy filiau ynni – bydd yr un fath yn wir ar gyfer mesuryddion clyfar.

**Oes angen cysylltiad â'r rhyngrwyd arnaf er mwyn i'r mesuryddion clyfar weithio?**
Nac oes. Dydy mesuryddion clyfar ddim yn defnyddio band eang na'r rhyngrwyd i gyfathrebu â ni.

**Beth fydd yn digwydd os byddaf yn penderfynu newid cyflenwr?**
Ni fydd eich mesuryddion clyfar yn eich rhwystro rhag newid cyflenwr. Serch hynny, os byddwch chi'n penderfynu ein gadael, efallai na fydd eich cyflenwr newydd yn gweithredu eich mesuryddion clyfar yn yr un modd, sy'n golygu y gallech chi golli rhai o wasanaethau'r mesurydd clyfar – felly mae'n syniad gwirio cyn newid.

Mae **81%*** o gwsmeriaid clyfar yn meddwl bod eu bil ynni yn gywir bellach

**Mae gen i fonitor ynni yn barod – ai'r un peth yw mesurydd clyfar?**
Nage, mae mesuryddion clyfar yn cymryd lle eich mesuryddion nwy a thrydan presennol, ac yn gallu anfon darlleniadau eich mesurydd yn ôl i ScottishPower. Bydd eich Dangosydd Cartref yn cysylltu â'r mesurydd hefyd.

**A oes safonau'r diwydiant ar waith ar gyfer gosod mesuryddion clyfar?**
Rydyn ni'n gweithio yn ôl y Cod Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar (SMICoP) gorfodol, sy'n pennu'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i aelodau o'r Cod eu dilyn yng nghyswllt gosod mesuryddion clyfar. Prif amcanion y cod hwn yw sicrhau eich bod yn cael gwasanaeth o safon, eich bod yn gwybod sut i ddefnyddio eich mesurydd clyfar, a'ch bod wedi cael esboniad ynghylch sut gallwch chi wella eich effeithlonrwydd ynni yn sgil eich mesurydd clyfar. I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.smicop.co.uk

**Pwy yw Ynni Clyfar GB?**
Ynni Clyfar GB (Smart Energy GB) yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am yr ymgyrch gyfathrebu genedlaethol ynghylch mesuryddion clyfar. Ei dasg yw helpu pawb ym Mhrydain Fawr ddeall mesuryddion clyfar, ac mae ScottishPower yn falch o fod yn bartneriaid yn y cynllun hwn.

SMART ENERGY GB | The voice of the smart meter rollout

**Beth os oes gennyf i amgylchiadau arbennig sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol arnaf i?**
Os ydych chi'n meddwl y bydd angen cymorth ychwanegol arnoch yn ystod y gwaith gosod, cysylltwch â ni cyn eich apwyntiad er mwyn trafod unrhyw ofynion o ran cymorth ychwanegol. Fe wnawn ni'n siŵr bod gan ein gosodwr bopeth sydd ei angen arno i gynnig cymorth ychwanegol ymlaen llaw.

**Cymorth ychwanegol gyda'n Gwasanaethau Blaenoriaeth**
Rydyn ni am roi gymaint o gymorth ag y bo modd i'r cwsmeriaid hynny sydd angen y cymorth hwnnw. Gallech chi fod yn gymwys i fod ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth am amrywiaeth o resymau, e.e. salwch cronig, anabledd, neu newid yn eich amgylchiadau personol. Os ydyn ni'n dod yn ymwybodol y byddech chi ar eich ennill gydag unrhyw un o'n Gwasanaethau Blaenoriaeth, byddwn yn cynnig eich ychwanegu at ein Cofrestr – neu, gallwch chi roi gwybod i ni os ydych chi'n credu eich bod yn gymwys. I gael mwy o wybodaeth, ewch i **scottishpower.co.uk/psr** neu ffoniwch ni am ddim ar **0800 027 0072**.

# Gwybodaeth Glyfar

## Popeth sydd angen ei wybod am fesuryddion clyfar



**Mae'n ddefnyddiol cadw hwn**
Dylech ei roi mewn lle diogel

SCOTTISHPOWER

# Croeso i ddyfodol lle mae ynni'n fwy clyfar

Yn ogystal â darparu eich ynni i chi, rydyn ni am wneud pethau'n hawdd i chi hefyd. Mae mesuryddion clyfar yn rhoi mwy o reolaeth i chi drwy gyfrwng gwybodaeth amser real ar eich Dangosydd Cartref. Bydd eich mesuryddion clyfar hefyd yn anfon darlleniadau eich mesurydd atom ni yn awtomatig†, sy'n golygu:

- dim mwy o gyflwyno darlleniadau eich hun
- dim mwy o bobl yn dod i ddarllen eich mesurydd
- dim mwy o filiau wedi eu hamcangyfrif.

**Dyna glyfar. Dyna ScottishPower.**

Dim mwy o amcangyfrifo eich defnydd na phobl yn dod i ddarllen eich mesurydd

†Efallai na fydd modd i ni gysylltu â'ch mesurydd ar rai adegau, a bydd yn rhaid i ni ddibynnu ar amcangyfrif.



## Mwy o reolaeth er mwyn arbed arian

Ar ôl gosod eich mesuryddion clyfar, gobeithio y byddwch chi'n sylwi ar wahaniaeth o ran sut rydych chi'n meddwl am eich defnydd o drydan. Drwy ddefnyddio eich Dangosydd Cartref defnyddiol, byddwch chi'n gallu:

- gweld gwybodaeth amser real gywir ynghylch y trydan rydych chi'n ei ddefnyddio
- cael syniad gwell o lawer o ran cost gwneud pethau, a hynny mewn punnoedd a cheiniogau
- cael syniad mwy clir o lawer ynghylch lle rydych chi'n gwario arian, er mwyn i chi allu gweld lle mae modd lleihau unrhyw ddefnydd diangen o drydan.

O ganlyniad i'r manteision gwych hyn a ddaw yn sgil mesuryddion clyfar, bydd modd i chi gael rhagor o reolaeth ar eich ynni ac ar faint rydych chi'n ei dalu amdano.

## Data eich mesurydd clyfar

Fe allwn ni gael y darlleniadau yn uniongyrchol o'ch mesuryddion clyfar yn awtomatig. Mae hyn yn golygu na fydd gofyn i chi gyflwyno darlleniadau mesurydd eich hun mwyach. Eich penderfyniad chi yw pa mor aml y byddwn ni'n cael eich darlleniadau – gall hyn fod yn fisol, yn ddyddiol, neu bob hanner awr. Yn ogystal â defnyddio eich darlleniadau i roi bil cywir i chi, byddwn ni hefyd yn eu defnyddio i ddarparu eich graffiau defnydd a chyngor effeithlonrwydd ynni personol drwy'r ap a'ch cyfrif ar-lein. Po amlaf y byddwn ni'n cael eich darlleniadau, y mwyaf personol a manwl y bydd y wybodaeth – felly rydyn ni'n argymell eich bod yn dewis darlleniadau bob hanner awr. Mae modd i chi newid amlder darlleniadau eich mesurydd ar unrhyw adeg drwy fynd i **scottishpower.co.uk/updatedetails** neu ein ffonio am ddim ar **0800 027 0072**. Rydyn ni ar agor rhwng 8am a 10pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8.30am a 6pm ar ddydd Sadwrn.

Os na fyddwn yn clywed gennych chi cyn pen 7 diwrnod ar ôl gosod eich mesurydd, byddwn yn dechrau cael eich darlleniadau yn ddyddiol.

Ni fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion marchnata, ac ni fyddwn byth yn ei rhannu â thrydydd partïon at eu dibenion marchnata nhw.

I gael cyngor annibynnol ynghylch eich hawliau a'ch dewisiadau yng nghyswllt eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i www.ico.org.uk neu drwy Linell Gymorth y Swyddfa ar 0303 123 1113.

# Paratoi ar gyfer y gwaith gosod

I wneud y gwaith o osod eich mesurydd clyfar mor hwylus â phosib, rydyn ni wedi llunio rhestr wirio ddefnyddiol i'ch helpu chi i baratoi.

Mae 73%* o gwsmeriaid clyfar yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu defnydd o ynni

## Cyn y gwaith gosod:

- ☐ **Os ydych chi'n meddwl bod angen rhagor o gymorth arnoch gyda'r gwaith gosod yn eich cartref, rhowch wybod i ni cyn eich apwyntiad.**
- ☐ **Gofynnwn yn garedig i chi glirio'r ardal o amgylch eich mesuryddion presennol neu roi gwybod i ni os oes unrhyw reswm y gallem ni gael trafferth cael mynediad a gosod eich mesuryddion newydd.**

## Ar y diwrnod gosod:

Dyma rai camau syml i'w dilyn ar y diwrnod er mwyn paratoi ar gyfer y gwaith gosod.

- ☐ **Gwnewch yn siŵr bod y gwres wedi ei ddiffodd.**
- ☐ **Dylech ddiffodd a dadblygio pob dyfais drydanol.**
- ☐ **Cofiwch gadw unrhyw ddata pwysig cyn diffodd a dadblygio cyfrifiaduron.**
- ☐ **Diffoddwch unrhyw offer nwy a pheidio â'i ddefnyddio yn ystod y gwaith gosod.**
- ☐ **Gwnewch yn siŵr bod drws eich rhewgell ar gau er mwyn atal eich bwyd rhag dadmer.**

# Beth bydd ein gosodwr yn ei wneud

Bydd ein gosodwr neu'n partner gosod cymeradwy yn gosod eich mesuryddion clyfar. Bydd gan y gosodwyr fathodyn ID i ddangos pwy ydyn nhw.

Bydd yn cynnal asesiad cyflym o'r lleoliad i wneud yn siŵr bod eich cartref yn addas ar gyfer y gwaith gosod.

Yna bydd yn rhoi disgrifiad byr o'r gwaith gosod i chi ac yn rhoi amcangyfrif o hyd y gwaith.

Bydd y gosodwr yn rhoi pecyn croeso clyfar i chi. Bydd hwn yn amlinellu manteision eich Dangosydd Cartref a ffyrdd o'i ddefnyddio.

Ar ôl gosod eich mesuryddion clyfar, bydd ein gosodwr yn rhoi eich Dangosydd Cartref i chi ac yn dangos i chi sut i'w ddefnyddio.

I gloi, bydd yn darllen drwy rhestr wirio gosod gyda chi ac yn rhoi cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau.

Rydyn ni'n sicrhau y bydd ein gosodwr yn parchu eich cartref ac yn ei adael yn yr un cyflwr ag yr oedd.

Ni ddylai'r gwaith gosod gymryd mwy nag awr neu ddwy at ei gilydd, ond bydd ein gosodwr mesurydd clyfar yn gallu rhoi gwybod i chi os yw'n debygol o bara rywfaint yn hwy.

I wneud yn siŵr eich bod yn teimlo'n gwbl barod, gallwch chi wylio ein fideo gosod yn **scottishpower.co.uk/getready**, a fydd yn disgrifio'r broses gyfan cam wrth gam.